

CQ Diploma in Veterinary Nursing - Small Animal Practice Level 3



Yn gwyno

Os ydych yn barod i gychwyn hyfforddi fel nyrs milfeddygol bydd y cwrs hwn yn rhoi cyfle i chi ddatblygu eich gyrfa yn darparu gofalu nyrsio i anifeiliaid gwael eu hiechyd. Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r cwrs, byddwch yn gymwys i gofrestru ar y rhestr nyrsys milfeddygol*.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...y rheiny sydd yn mwynhau gofalu am anifeiliaid

...unrhyw un sydd yn gweithio mewn milfeddygfa ar gyfer anifeiliaid bach

...hyfforddi fel nyrs milfeddygol

Cynnwys y cwrs

Mae'r cwrs wedi ei ddylunio i roi'r cyfle i chi ennill cymhwysedd nyrsio ymarferol clinigol yn



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

seiliedig ar wybodaeth greiddiol am ymarfer nyrsio milfeddygol er mwyn datblygu eich gyrfa filfeddygol. Yna, gallwch ddod yn gymwys i gael eich cofrestru ar y rhestr nyrsys milfeddygol*. Bydd arbenigwyr yn y maes gofal anifeiliaid a nyrsio milfeddygol yn cynnal darlithoedd gwadd, a byddwch yn cymryd rhan mewn fforymau trafod a gwaith grwp.

Bydd angen i chi ymrwymo'n llwyr i fynychu'r coleg am un diwrnod yr wythnos am gyfnod o 36 wythnos y flwyddyn am 2 flynedd, ac i astudio yn ystod eich amser personol. Cewch eich asesu drwy:

Beirniadaeth grwp

Prosiectau

Portffolio gwaith

Cyflwyniadau

Adroddiadau

Arholiadau ymarferol ac ysgrifenedig Wedi cwblhau hyn, byddwch yn ennill Diploma Nyrsio Milfeddygol Lefel 3 City & Guilds, ac yna byddwch yn gymwys i gofrestru fel nyrs milfeddygol*.

*Byddwch yn gymwys i ymuno â Chofrestr Nyrsys Milfeddygol Coleg Brenhinol y Milfeddygon (RCVS) ac yn nyrs milfeddygol gwbl gymwys unwaith y byddwch wedi cwblhau'r Diploma Nyrsio Milfeddygol Lefel 3, log datblygiad nyrsio'r RCVS, arholiadau clinigol City and Guilds sydd wedi eu strwythuro yn ôl amcanion, ac wedi cwblhau log o 2100 awr yn eich practis hyfforddi.

Gofynion Mynediad

Byddwch angen o leiaf 5 TGAU ar radd C neu uwch, yn cynnwys Mathemateg, Saesneg Iaith (neu Gymraeg Iaith Gyntaf) ac o leiaf un pwnc gwyddoniaeth.

Rydych hefyd angen bod yn gweithio mewn milfeddygfa ar gyfer anifeiliaid bach - os nad yw eich lleoliad chi yn Bractis Hyfforddi, byddwn yn gweithio gyda nhw i ennill statws Practis Hyfforddi.

Gwybodaeth Ychwanegol

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

